

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

Chwefror 2022

## 1. Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 mewn perthynas â'r meysydd polisi yn ein cylch gwaith.
2. Ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor Cyllid ac adroddiadau pwyllgorau eraill y Senedd, bwriedir i'r adroddiad hwn lywio dadl y Senedd ar y gyllideb ddrafft, sydd wedi'i threfnu ar gyfer 8 Chwefror 2022.
3. Byddem yn croesawu ymateb i'n hadroddiad a'n hargymhellion.

## Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

4. Ar 20 Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion ar gyfer cyllideb ddrafft 2022-23. Cyhoeddwyd y setliad Llywodraeth Leol dros dro ar 21 Rhagfyr 2021.
5. Y Prif Grwpiau Gwariant ("MEG") sy'n dod o fewn ein cylch gwaith yw Cyllid a Llywodraeth Leol a Newid Hinsawdd. Y meysydd buddsoddi penodol o fewn y MEGs hyn sy'n berthnasol i'n cylch gwaith yw Llywodraeth Leol a Thai.

## Ymagwedd y Pwyllgor tuag at graffu

6. Ar 12 Ionawr 2022, clywsom dystiolaeth lafar gan gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLILC") a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r setliad Llywodraeth Leol dros dro ac agweddau ar y gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â llywodraeth leol.



**7.** Ar 21 Ionawr 2022, clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas ag agweddau ar y gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â thai.

## 2. Llywodraeth Leol

### Ymateb i COVID-19 a chymorth ariannol

**8.** Mae llywodraeth leol wedi bod ar flaen y gad yn yr ymateb i'r pandemig, gan ddarparu arweinyddiaeth a chydlynu ymdrechion lleol. Mae adnoddau'r sector wedi cael eu hystyngiadau i'r eithaf, yn erbyn cefndir ariannol a oedd eisoes yn dalcen caled i awdurdodau lleol.

**9.** Arweiniodd y pandemig at gynnydd sydyn yn y galw am rai gwasanaethau llywodraeth leol penodol, ac at ostyngiad cyflym yn yr incwm a gynhrychir. O ganlyniad, sefydlwyd **Cyllid Caledi Llywodraeth Leol** gan Lywodraeth Cymru, gan gynnig rhwyd ddiogelwch i awdurdodau lleol. Ddechrau 2021, dyrannwyd dros £600 miliwn i awdurdodau lleol trwy gyllid caledi. Fel rhan o Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, cafodd £206.6 miliwn yn ychwanegol ei ddyrannu.

**10.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig cyn ymddangos gerbron ein Pwyllgor ym mis Medi 2021, dywedodd y Gweinidog:

*"..nid wyf yn rhagweld y bydd cyllid penodol ar gyfer y Gronfa Caledi yn parhau yn 2022-23. Bydd angen i awdurdodau gynllunio nawr ar gyfer newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau a'r galw amdanynt o ganlyniad i natur barhaus ein hymateb i COVID-19, a bydd angen i'n trafodaethau ynghylch pwysau a chyfleoedd fel rhan o broses y gyllideb adlewyrchu hyn."*<sup>1</sup>

**11.** Cadarnhawyd y dull hwn gan y Gweinidog yn ei thystiolaeth ysgrifenedig ar y setliad llywodraeth leol drafft, lle dywedodd:

*"Nid oes cronfa galedi llywodraeth leol ar wahân ar gyfer 2022-23 ymlaen am na chafwyd unrhyw gyllid penodol gan Lywodraeth y DU ar gyfer adfer ar ôl COVID-19. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y setliad yn golygu y caiff awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i barhau i reoli costau ychwanegol a cholli incwm."*<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Medi 2021, [Papur 2](#).

<sup>2</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 12 Ionawr 2022, [Papur 2](#).

---

**12.** Clywsom gan gynrychiolwyr CLILC a ddywedodd eu bod yn deall safbwynt y Gweinidog a'r sail resymegol dros ddod â'r gyllid caledi i ben. Dywedodd y Cynghorydd Anthony Hunt wrthym:

*"we've got concerns about the hardship fund coming through, but we completely understand the situation that Welsh Government are in, with the uncertainties about the pandemic. [ ] We do recognise, though, that at some point it has to come to an end, and at some point it's our responsibility as councils to plan for the demand that's going to not just stop all in one go, coming from the pandemic."*<sup>3</sup>

**13.** Fodd bynnag, ychwanegodd y Cynghorydd Hunt y byddai effaith dirwyn y cyllid caledi i ben wedi bod yn fwy o bryder pe bai'r setliad llywodraeth leol yn llai ffafriol; ychwanegodd hefyd fod natur anrhagweladwy y pandemig wedi arwain at ansicrwydd:

*"I would be a lot more emphatic in my concerns if it was the case that the hardship fund had been withdrawn after a much lower settlement. I'd hope the settlement that's been given this year gives councils the ability to plan going forwards themselves, but that said, we don't know what's coming around the corner in terms of this pandemic."*<sup>4</sup>

**14.** Roedd y Cynghorydd Richard John yn cytuno:

*"I'd echo what Anthony said about the hardship fund. While it's been a great support for our services, I think it was the right decision to move away from it. We'd all like to think we're moving into a very different stage of the pandemic now, but I think having a more generous settlement gives us greater flexibility to manage whatever is going to be thrown at all of us as public servants over the next 12 months. I think it's the right thing to do."*<sup>5</sup>

**15.** Eglurodd y Gweinidog y rhesymau dros ei phenderfyniad i roi'r gorau i'r cyllid caledi:

*"I think it would have been a difficult decision to make had the settlement for local government been more challenging. [ ] But the fact that we don't have any COVID-specific funding from the UK Government for next year or for future years helped in that decision in the sense that UK Government has*

---

<sup>3</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p11](#)

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p13](#)

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p23](#)

---

*now subsumed COVID responses and the funding for it into departmental budgets [ ] the only way realistically I could have created a hardship fund would have been to remove money from the RSG."*<sup>6</sup>

**16.** Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddweud:

*"In terms of whether or not there would be additional funding next year, I suppose this partly depends on where the pandemic takes us and what the UK Government's response is."*

**17.** Ychwanegodd y Gweinidog y byddai'n pwysu ar Lywodraeth y DU i weld a ellir disgwyl datganiad yn y gwanwyn, a dywedodd:

*"I will have to consider, then, how to deploy any additional funding for next year as a result of that. So, there are still some moving parts in this, although, on the whole, from our perspective with the budget that we have, then that's been allocated, so there isn't significant scope for additional funds at this point."*<sup>7</sup>

## **Ein barn ni**

---

**18.** Rydym yn nodi rhesymeg y Gweinidog dros ddod â Chyllid Caledi Llywodraeth Leol i ben a'r ffaith bod llywodraeth leol yn derbyn y dull hwn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod nad yw'r pandemig drosodd eto, a gallai cynnydd pellach yn nifer yr achosion arwain at bwysau ychwanegol ar lywodraeth leol. Er bod llywodraeth leol yn cydnabod yr angen i brif ffrydio eu cynlluniau ar gyfer pwysau COVID, roedd y cyllid caledi yn darparu adnoddau pwrpasol i ymateb i'r galwadau a roddwyd arnynt. Credwn y gallai fod angen hyblygrwydd a chymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o hyd pe bai achosion o COVID yn cynyddu eto. Mae'r ansicrwydd ynghylch y pandemig yn ei gwneud yn anodd i lywodraeth leol gynllunio ar gyfer pob senario, felly dylai Llywodraeth Cymru fod yn barod i ddarparu cyllid ychwanegol, pe bai angen i awdurdodau ymateb i gynnydd pellach mewn achosion.

---

<sup>6</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p157](#).

<sup>7</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p160](#).

---

## Y setliad llywodraeth leol dros dro

19. Yn ei hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid (26 Tachwedd 2021), mae CLILC yn nodi y bydd y cynnydd mewn costau ynni, ynghyd â chostau cynyddol nwyddau a deunyddiau, yn effeithio ar gynghorau drwy "gynnydd mewn costau rhedeg uniongyrchol".<sup>8</sup>

20. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y pwysau, gan gynnwys pwysau sy'n gysylltiedig â COVID ar gyfer 2022-23, yn dod i £407 miliwn. Mae'r tabl isod, sydd wedi'i gynnwys yn nhystiolaeth CLILC, yn rhoi dadansoddiad o'r pwysau amcangyfrifedig fesul thema dros y tair blynedd nesaf:<sup>9</sup>

Pwysau yn ôl thema (£m)	22-23	23-24	24-25
Chwyddiant cyflogau	105,380	95,445	95,003
Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog	75,962	70,540	70,554
Ffioedd a Thaliadau	- 8,482	-7,788	-7,007
Pwysau mewn perthynas â galw	101,740	90,423	85,833
Pwysau cyllido cyfalaf	11,066	15,915	27,625
Gostyngiad mewn grantiau penodol	9,504	4,030	3,348
Blaenoriaethau Lleol	13,335	6,313	4,635
Arall	23,347	26,168	16,022
Pwysau covid	75,529	26,168	16,022
<b>Cyfanswm y pwysau</b>	<b>407,381</b>	<b>314,451</b>	<b>304,979</b>

Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2021

21. Dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai cyllid ar gyfer cyflawni rhai o bolisiau penodol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru gan lywodraeth leol yn cael ei ddarparu ar wahân, a chyfeiriodd at ddiwygio'r dreth gyngor fel enghraifft:

*"In terms of specific items within the programme for government, there are some specific items relating to local government that we'll be delivering over the course of the Senedd term and many of them are actually funded separately. [ ] So, we're looking to ensure that the settlement provides local authorities with a strong foundation to deliver the services that they deliver, whilst also looking at additional funding and separate funding for some of the other items within the programme for Government."*<sup>10</sup>

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Cyllid, [WGDB\\_22-23\\_42, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

<sup>9</sup> Y Pwyllgor Cyllid, [WGDB\\_22-23\\_42, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

<sup>10</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p146](#)

## Cyllid Allanol Cyfun

---

**22.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2022-23 ar 21 Rhagfyr 2021. Ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, mae'r cyllid craidd cyffredinol (Cyllid Allanol Cyfun) ar gyfer llywodraeth leol yn 2022-23 yn £5.1 biliwn, sef cynnydd o 9.4 y cant ar sail tebyg am debyg o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Mae hyn yn cyfateb i £437.5 miliwn o gyllid cyffredinol ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol.

**23.** Yn 2021-22, roedd y cynnydd cyffredinol yn y cyllid allanol cyfun yn 3.8 y cant ar sail tebyg am debyg, neu £172 miliwn. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys grant cynnal refeniw awdurdodau lleol a'r rhan y gellir ei dosbarthu o ardrethi annomestig.

## Grant Cynnal Refeniw

---

**24.** Y Grant Cynnal Refeniw yw grant heb ei neilltuo Llywodraeth Cymru a ddsberthir i awdurdodau lleol drwy fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion. Cyfanswm y cymorth cyllid grant sydd ar gael i awdurdodau lleol yn 2022-23 yw £3.97 biliwn. Mae hyn yn gynydd o £368 miliwn (10 y cant) ar y setliad presennol.

**25.** Yn ei phapur tystiolaeth, mae'r Gweinidog yn nodi bod y cynnydd yn y setliad yn rhoi'r adnoddau i awdurdodau lleol ddechrau mynd i'r afael â'r heriau niferus sy'n eu hwynebu. Mae'r cyllid hwn, yn ôl y Gweinidog, yn ddigonol i dalu am amcanestyniadau cyflog a chwyddiant uwch. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn cydnabod ei bod yn anochel y bydd awdurdodau lleol yn parhau i wynebu pwysau.

**26.** Croesawyd y cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw gan gynrychiolwyr llywodraeth leol. Dywedodd y Cynghorydd Hunt wrthym:

*"it is an exceptionally generous settlement; it is a settlement that we welcome very much."<sup>11</sup>*

**27.** Er iddo groesawu'r setliad hael, ychwanegodd y Cynghorydd John:

*"There are some significant pay and inflationary pressures that will erode most of that, about 70 to 80 per cent of it. The complexity and the nature of the challenges in, particularly, social care and additional learning needs will erode much of the rest."<sup>12</sup>*

---

<sup>11</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p28

<sup>12</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p34

---

**28.** Aeth y Cyngorydd Hunt ymlaen i ddweud ei fod yn credu y byddai'r setliad yn galluogi awdurdodau lleol i wneud mwy na sefyll yn eu hunfan, ond i wneud newidiadau ehangach:

*"I think standing still, whilst an achievement in itself, coming out of this pandemic – I think we can do better than that with this settlement. I think we can both address the pressures that are there in the system, both post austerity and post pandemic, and we can address some of the structures."*<sup>13</sup>

## Dosbarthiad awdurdodau lleol

**29.** O ganlyniad i'r cynnydd cyffredinol o 9.4 y cant yn y Cyllid Allanol Cyfun, ni ddisgwylir i unrhyw awdurdod gael cynnydd llai na 8.4 y cant yn ei setliad ar gyfer 2022-23. Mewn cymhariaeth, yn 2021-22, Cyngor Dinas Casnewydd a gafodd y cynnydd mwyaf mewn cyllid o blith yr holl awdurdodau lleol (5.6%) a Chyngor Sir Ceredigion a gafodd y cynnydd isaf, sef 2%. Mae'r tabl isod yn dangos y swm dros dro y bydd pob awdurdod lleol yn ei gael mewn Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer 2022-23, a'r gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â 2021-22<sup>14</sup>.

**Tabl 1a: Newid mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF), wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau, yn ôl Awdurdod Unedol (£000oedd)**

Awdurdod Unedol	Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2021-22 [Nodyn 1]	Cyllid Allanol Cyfun Dros Dro 2022-23	Newid fel canran	Rheng
Sir Fynwy	101,003	112,275	11.2%	1
Caerdydd	492,095	544,715	10.7%	2
Bro Morgannwg	168,128	186,011	10.6%	3
Casnewydd	240,957	265,612	10.2%	4
Conwy	167,356	183,308	9.5%	5
Powys	192,088	210,257	9.5%	6
Wrecsam	189,233	207,060	9.4%	7
Sir Benfro	179,422	196,253	9.4%	8
Abertawe	353,571	386,585	9.3%	9
Torfaen	146,560	160,117	9.3%	10
Sir Gaerfyrddin	285,262	311,597	9.2%	11
Ynys Môn	104,872	114,549	9.2%	12
Pen-y-bont ar Ogwr	212,755	232,364	9.2%	13
Sir y Fflint	212,608	232,174	9.2%	14
Sir Ddinbych	159,060	173,637	9.2%	15
Merthyr Tudful	101,493	110,616	9.0%	16
Gwynedd	195,905	213,210	8.8%	17
Castell-nedd Port Talbot	237,289	258,068	8.8%	18
Ceredigion	110,006	119,419	8.6%	19
Caerffili	292,712	317,453	8.5%	20
Rhondda Cynon Taf	407,050	441,433	8.4%	21
Blaenau Gwent	120,657	130,795	8.4%	22
<b>Cyfanswm Awdurdodau Unedol</b>	<b>4,670,080</b>	<b>5,107,507</b>	<b>9.4%</b>	

<sup>13</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p48

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, Setliad referniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2022 i 2023, Tabl 1a. Mae'r tabl wedi'i addasu i ddangos y gwahaniaeth mewn canrannau mewn trefn, o'r mwyaf i'r lleiaf.

**30.** Er mai Cyngor Sir Fynwy fydd yn derbyn y cynnydd canrannol uchaf mewn Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer 2022-23 (11.2%), o ran Cyllid Allanol Cyfun y *pen* (sef swm y cyllid grant sydd ar gael fesul preswlydd), Sir Fynwy sy'n cael yr isaf, sef £1,176 fesul preswlydd. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, sy'n derbyn y cynnydd cyffredinol isaf yn y Cyllid Allanol Cyfun, sef 8.4%, sy'n cael y cyllid uchaf y pen, sef £1,881 fesul preswlydd. Mae hyn yn cyfateb i wahaniaeth o £705 mewn cyllid grant fesul preswlydd.<sup>15</sup> Yn y setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2021-22, y gwahaniaeth yn y cyllid grant y pen rhwng yr awdurdod ar frig y tabl a'r un ar y gwaelod oedd £663.<sup>16</sup>

**31.** Mynegodd y Cyngorydd John bryder ynghylch ehangu'r bwloch hwn:

*"My concern would be that the gap between the highest and lowest funded councils has widened again; it's been getting wider year on year for many years now and I think we've reached a stage where the gap is simply too wide. You've got a situation where councils like Monmouthshire receive £1,174 per resident, compared to £1,881 in a neighbouring council."*<sup>17</sup>

**32.** Pwysleisiodd y Cyngorydd John:

*"I also don't think that the formula sufficiently recognises the challenge of delivering services in rural areas."*<sup>18</sup>

**33.** Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth bod gan wahanol awdurdodau lleol safbwyntiau gwahanol ar y fformiwla ariannu. Dywedodd y Cyngorydd Hunt:

*"If you start talking about shares and slices of the pie as opposed to the pie in collective, as you can imagine, different councils will have different views."*<sup>19</sup>

## Setliad aml-flwyddyn

---

**34.** Mae'r sector llywodraeth leol wedi galw ers amser maith am setliadau aml-flwyddyn i roi sicrwydd i awdurdodau lleol a'u galluogi i gynllunio dros y tymor canolig. Wrth roi tystiolaeth i'n pwyllgor rhagflaenol yn y Bumed Senedd, dywedodd CLILC:

---

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, [Setliad referniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2022 i 2023. Tabl 1c.](#)

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, [Setliad referniw a chyfalaf llywodraeth leol: terfynol 2021 i 2022. Tabl 1c.](#)

<sup>17</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p32.](#)

<sup>18</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p34.](#)

<sup>19</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p45.](#)

---



*"What everybody wants is some degree of certainty, security and predictability... we always lobby for multi-year settlements to enable authorities to plan into the future in terms of how they deliver their services."*<sup>20</sup>

**35.** Darparodd Adolygiad o Wariant y DU Derfyn Gwariant Adrannol Adnoddau Cymru ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dyraniadau dangosol i lywodraeth leol hyd at 2025.

**36.** Eglurodd y Gweinidog fanteision y setliad aml-flwyddyn:

*"I think what's different this year is that we've provided three years' funding to local government, and that does allow local government to think differently, to plan differently and to take decisions that can be more cost-effective, and I think that they've recognised that as well. So, that does put them on a stronger footing for the future to make decisions that financially could benefit them as well."*<sup>21</sup>

**37.** Croesawyd y setliad aml-flwyddyn gan y Cynghorydd Hunt fel cyfle i lywodraeth leol fabwysiadu dull tymor hwy wrth gynllunio:

*"I think this settlement, alongside the fact that it is a multi-year settlement, gives us the chance, if we think to the long term, if we don't just take the easy options this year, to really address some of those things in the longer term."*<sup>22</sup>

## **Ein barn ni**

---

**38.** Rydym yn croesawu'r setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2022-23, ac yn cydnabod barn y sector fod hwn yn setliad hael, gan ddarparu cynnydd sy'n fwy na'r pwysau a nodwyd gan CLILC. Nodwn fod darparu setliadau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol wedi'i groesawu'n gyffredinol gan lywodraeth leol, a chrosawn safbwynt y sector y bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i lunio cynlluniau tymor hwy ar gyfer gwasanaethau, yn hytrach nag ymateb i bwysau uniongyrchol yn unig. Er gwaethaf hyn, rydym yn cydnabod bod llywodraeth leol yn dal i fod dan bwysau sylweddol wrth wynebu galw cynyddol am wasanaethau a chostau cynyddol o hyd.

---

<sup>20</sup> Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, [Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2021, p12](#)

<sup>21</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p185](#)

<sup>22</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p48](#)

---

**39.** Rydym yn pryderu, fel cynrychiolwyr a etholir yn lleol ac sy'n atebol yn lleol, y dylai fod gan gynghorau'r adnoddau i gyflawni eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer eu hardaloedd. Rydym felly'n croesawu'r cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw heb ei neilltuo, ond mae gennym bryderon bod y fframwaith deddfwriaethol y mae llywodraeth leol yn gweithredu oddi tano yn arwain at fwy o gyfarwyddyd a llai o ryddid o ran sut y caiff y cyllid hwnnw ei ddyrannu.

## Cyllid cyfalaf

**40.** Mae'r gyllideb ddrafft yn dyrannu £150 miliwn mewn cyllid cyfalaf i awdurdodau lleol. Mae hyn £47.8 miliwn yn is na'r swm a ddarparwyd yn 2021-22. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod grant cyfnod penodol o £20 miliwn ar gyfer adnewyddu priffyrdd wedi dod i ben a gostyngiad o £27.8 miliwn mewn cyllid cyfalaf cyffredinol. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn nodi mai diben y gostyngiad yw:

*"sicrhau bod modd i gyllidebau cyfalaf ac ymrwymadau ar draws Llywodraeth Cymru gael eu rheoli'n gyffredinol, gan gynnwys grantiau penodol i lywodraeth leol megis Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (ysgolion a cholegau'r 21ain ganrif gynt)."*<sup>23</sup>

**41.** Mae dyraniadau cyfalaf dangosol ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn cynyddu i £200 miliwn y flwyddyn.

**42.** Dywedodd y Cynghorydd John ei fod yn gresynu'r toriad mewn cyllid cyfalaf oherwydd ein bod wedi cyrraedd pwynt lle mae costau chwyddiant, costau adeiladu yn codi ar raddfa sylweddol. Ychwanegodd:

*"we're seeing at the same point as costs are escalating significantly our ability to invest in capital projects is diminishing. I mentioned leisure centre investment earlier on. That's more important than ever now."*<sup>24</sup>

**43.** Mynegodd y Cynghorydd John bryderon hefyd ynghylch cyllid ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd:

*"Potholes are far more dangerous to pedestrians and cyclists than they are to motorists, so I'm concerned that there's no money at all for the resilient roads fund. I understand there's a cut to the local transport fund as well. We have got to maintain the roads we already have. Even if we're encouraging more*

---

<sup>23</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 12 Ionawr 2022, [Papur 2](#)

<sup>24</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p66](#)

---

*people to use public transport and more investment in active travel, that road maintenance is really important."*<sup>25</sup>

**44.** Gofynnodd y Cyngorydd Hunt i Lywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol pe bai cyfleoedd am gyllid cyfalaf pellach yn codi o ganlyniad i benderfyniadau gwariant Llywodraeth y DU:

*"if and when other capital announcements are made that have direct consequential, that we work together on things like climate changes and things like flooding, road safety, public transport, 20 mph implementation, road resurfacing, coal-tip remediation."*<sup>26</sup>

**45.** Cydnabu'r Gweinidog y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf ar gyfer llywodraeth leol, ynghyd â therfyn y grant o £20 miliwn ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd, a derbyniodd fod y setliad cyllid cyfalaf wedi peri rhywfaint o siom. Ychwanegodd y Gweinidog:

*"that really is a reflection of the capital settlement that we received from the UK Government."*<sup>27</sup>

## **Ein barn ni**

---

**46.** Mae'r gostyngiad yn y cyllid cyfalaf yn bryder gwirioneddol inni, yn enwedig gan fod y grant o £20 miliwn ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd wedi dod i ben ar yr un pryd. Bydd cynnal a chadw priffyrdd sy'n ddiogel i ddefnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus, beicwyr a cherddwyr yn hollbwysig er mwyn annog pobl i leihau'r defnydd o geir preifat.

**47.** Nodwn fod y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf ar gyfer llywodraeth leol yn rhan o ostyngiad cyffredinol mewn gwariant cyfalaf ar draws cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae'r gostyngiad hwn yn destun pryder i ni, a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda CLILC i archwilio dulliau eraill o gefnogi'n ddarbodus gyllideb gyfalaf fwy i lywodraeth leol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a CLILC yn cydweithio i archwilio ffyrdd eraill o gefnogi cyllidebau cyfalaf mwy ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol, gan gynnwys rôl benthyca â chymorth.

---

<sup>25</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p67](#).

<sup>26</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p69](#).

<sup>27</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p210](#).

---

## Y Dreth Gyngor a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

### Y Dreth Gyngor

---

**48.** Er gwaethaf y cynnydd diweddar yn y setliad cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol, mae'r dreth gyngor wedi parhau i godi. Dywedodd cynrychiolwyr llywodraeth leol wrthym eu bod yn ymwybodol o'r pwysau ariannol ar aelwydydd, ac y byddent yn dymuno cael cydbwysedd priodol rhwng cynyddu treth a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Eglurodd y Cyngorydd Hunt:

*"Obviously, we will be cognisant of the need to try and keep bills down, especially at this time when people are facing rises in so many other key bills, from food to heating and things like that, because of the general rate of inflation. And we will certainly do all we can to keep council tax rises as low as possible. But it's not a binary choice of whether to raise council tax or not; we'll do all we can. [ ] It would be very tempting, before an election, for us to throw something at council tax in the view that it would be, in the short term, popular, whereas I'd much rather look to the longer term and how do we put services on a sustainable footing, going forwards, whilst keeping council tax as low as possible. So it's that balance that we'll all be trying to strike across different councils."*<sup>28</sup>

**49.** Ychwanegodd y Cyngorydd John:

*"most of the increase in that settlement will be eroded by inflationary and workforce pressures, additional learning needs and social care complexity, which has increased significantly in the last few years. That will eat up the rest. And, obviously, we're going into a very challenging year with, obviously, the COVID hardship fund disappearing, for justifiable reasons. So, we've got to be responsible. So, it's a very difficult balance, I think, for local authorities to strike."*<sup>29</sup>

**50.** Clywsom hefyd y gall cynyddu'r dreth gyngor fod yn arbennig o amhoblogaidd gan nad yw'n gysylltiedig â chyfraddau chwyddiant, fel yr esboniodd y Cyngorydd Hunt:

*"It's one of the only taxes that you have to raise just to stand still. Other taxes, like income tax, for example, will go up with inflation as wages go up*

---

<sup>28</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p83](#)

<sup>29</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p86](#)

*as a consequence, and the inflation comparison is one we get thrown at us each year when, of course, the pressure on our services doesn't really necessarily relate to inflation. I think it's one that will get thrown at us a lot less this year, now that inflation is much higher and hopefully council tax rises will be much lower. But it's a difficulty, as there's a difficulty because of the fact that council tax is not an at-source tax, and therefore people see it much more up and close, because they get a bill for it, as opposed to income tax, which gets taken off before they ever get the money."*<sup>30</sup>

**51.** Aeth y Cyngorydd John ymlaen i ddweud y gellid gwneud mwy i hysbysu'r cyhoedd ynghylch sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario:

*"I think we do need to do more to ensure that the public understand what they're paying for in their council tax. Sometimes, people think they're only paying for street lights and roads, and forget that we're paying for education and social care, and some really quite expensive services for vulnerable people. You pay your council tax not for what benefits you, but what benefits the whole of society."*<sup>31</sup>

**52.** Pwysleisiodd y Gweinidog mai mater i awdurdodau lleol yw penderfyniadau ar godi'r dreth gyngor:

*"this is a matter for local authorities, and it's not something that I want to express a view on, because it is entirely within their gift to decide what to do with council tax, and, obviously, they'll be considering this alongside those pressures that we've discussed. So, it's not for Welsh Government to meet it all; there is a role for local authorities to think about whether council tax should play a part in their response as well. But I'm not going to tell local authorities what I think they should be doing in terms of raising council tax or otherwise."*<sup>32</sup>

---

<sup>30</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p90](#)

<sup>31</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p98](#)

<sup>32</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p191](#)

---

## Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

---

**53.** Mae'r gostyngiad yng nghyfraddau casglu trethi lleol dros gyfnod y pandemig wedi bod yn sylweddol. Yn ystod 2020-21, **casglodd awdurdodau bilio 95.7 y cant o'r dreth gyngor a godwyd**. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 1.3 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol.

**54.** Cofnododd pob awdurdod ostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn eu cyfraddau casglu, yn bennaf oherwydd i weithgarwch adennill dyledion gael ei atal dros dro yn ystod y pandemig. Ochr yn ochr â chyfradd gasglu sy'n gostwng, daeth **adroddiad ar effaith COVID-19 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** yng Nghymru i'r casgliad bod llwyth achosion a chyfanswm gwerth gostyngiadau'r Cynllun wedi cynyddu.

**55.** Ers i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ddisodli Budd-dal y Dreth Gyngor yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £244 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol i alluogi aelwydydd cymwys i gael yr hawl lawn i gymorth. Nid yw'r ffigur o £244 miliwn wedi newid dros y degawd diwethaf. Mae **Adroddiad Blynyddol diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y Cynllun**, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021, yn nodi mai cyfanswm gwerth y gostyngiadau a ddarparwyd drwy'r Cynllun o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2021 oedd tua £295 miliwn. Mae hyn yn gynydd o £24.2 miliwn ar y flwyddyn flaenorol.

**56.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn hyderus bod parhau â'r cymorth ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar £244 miliwn yn ddigon:

*"we've maintained the provision of that fund at the £244 million. That is a significant amount of funding. I think the funding arrangements for the council tax reduction scheme do reflect the fact that it is jointly owned by the Welsh Government and by local government. It's my understanding that the caseload—although there was a blip, I understand, during the pandemic—the caseload generally has been declining over recent years."*<sup>33</sup>

**57.** O ran y gostyngiad yng nghyfraddau casglu'r dreth gyngor, dywedodd y Cyngorydd Hunt:

*"We have been encouraging conversations with the Minister for Finance and Local Government about how we can continue to work together to ensure that that doesn't undermine people's budgets going forwards."*<sup>34</sup>

---

<sup>33</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p245.

<sup>34</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p105.

---

**58.** Cydnabu'r Gweinidog y gostyngiad yng nghyfraddau casglu'r dreth gyngor ers dechrau'r pandemig, a dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio cydnabod hynny gyda chyllid ychwanegol y llynedd. Ychwanegodd y Gweinidog fod swyddogion Llywodraeth Cymru'n cynnal trafodaethau gyda llywodraeth leol ar hyn o bryd am y canlynol:

*"what the impact has been this year and whether or not we need to provide some additional recognition of that again, but those discussions are ongoing as I understand it."*<sup>35</sup>

## Ein barn ni

**59.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth, er y gallai pennu cynnydd llai yng nghyfraddau'r dreth gyngor fod yn boblogaidd ymhlith trethdalwyr, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn ddigonol ar gyfer yr angen, ac yn gynaliadwy at y dyfodol. Rydym hefyd yn nodi'r sylwadau y bydd angen i awdurdodau lleol, wrth wneud eu penderfyniadau, fod yn ymwybodol o'r pwysau ariannol ehangach ar drethdalwyr a'r angen i sicrhau cydbwysedd priodol. Er nad oes gennym farn ar gyfradd y cynnydd yn y dreth gyngor, credwn fod hwn yn ddull darbodus.

**60.** Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i drafodaethau parhaus â llywodraeth leol am y gostyngiad yng nghyfraddau casglu'r dreth gyngor yn ystod y pandemig a'r effaith ar gyllid cynghorau. Gallai'r gostyngiad mewn cyfraddau casglu amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol, felly mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru ddeall maint y sefyllfa a theilwra cymorth yn unol â hynny.

## Pwysau'r gweithlu a phwysau a arweinir gan y galw

### Gwasanaethau cymdeithasol

**61.** Mae parhad gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw, megis gwasanaethau cymdeithasol, wedi bod yn destun pryder i lywodraeth leol, ac mae'n parhau i fod felly. Mae'r pandemig wedi dwysáu'r pwysau a oedd ar wasanaethau eisoes, ac mae'r galw am wasanaethau statudol i blant ac oedolion wedi cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod hwn. Mae CLILC yn nodi bod "y galw'n parhau i dyfu yn gyflym o'i gymharu â chapasiti", a bod "cymhlethdod ychwanegol y rhai sy'n cyflwyno i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn unigryw ac yn ddigynsail".

<sup>35</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p245](#).

**62.** Mae naratif Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn dweud bod Llywodraeth Cymru'n darparu:

*"£250m yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys £180m o gyllid a ddarparwyd o fewn y setliad Llywodraeth Leol, buddsoddiad uniongyrchol o £45m ynghyd â £50m o gyfalaf gofal cymdeithasol ychwanegol o'i gymharu â 2021-22."*<sup>36</sup>

**63.** Eglurodd y Gweinidog pam ei bod yn credu y dylai'r setliad fod yn ddigonol i ateb y pwysau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol:

*"I've been clear in my letter, which accompanied the provisional settlement for local government, what we expect to be delivered through that, and of course social services is a key element of that. We worked very closely with local government to identify the quantum of funding that was needed in local government to support social services and to put them a sustainable footing for the future, and then also work very carefully to identify the sum of money that would be needed to introduce the real living wage for social care workers."*<sup>37</sup>

**64.** Credai'r Cyngorydd Hunt fod y gyllideb yn cydnabod y sefyllfa y mae gwasanaethau ynddi a'r angen i'w hariannu'n briodol, ac ychwanegodd:

*"Will it have an impact on those services? I believe it will have a positive impact as compared to previous years or what councils were maybe forecasting ahead of the conversations."*<sup>38</sup>

**65.** Fodd bynnag, pwysleisiodd y Cyngorydd Hunt a'r Cyngorydd John y pwysau enfawr<sup>39</sup> a'r heriau niferus y bydd cyngorau yn eu hwynebu er mwyn darparu gwasanaethau. Eglurodd y Cyngorydd John:

*"In terms of social care, while we already fund the real living wage, ensuring that the independent sector that we use for a significant proportion of our provision, ensuring that that is funded to a level whereby their care workers can be paid the real living wage is a challenge. And even meeting that, which I know is a Welsh Government aspiration, rising to £9.90 across Wales, is still*

---

<sup>36</sup> Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, Rhagair

<sup>37</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p145](#)

<sup>38</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p111](#)

<sup>39</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p111](#)

---



*going to leave us with significant workforce challenges because, at the moment, there just aren't enough care workers out there."*<sup>40</sup>

## Recriwtio a chadw staff

**66.** Mae'r pwysau ar wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn hysbys i bawb, yn enwedig y pwysau ar y sector gofal cymdeithasol. Mae'r pandemig wedi cael effaith arbennig o negyddol ar y sector hwn, ac mae'n parhau i effeithio ar ddarpariaeth rhai gwasanaethau yn ôl CLILC. Mae'n mynd ymlaen i nodi na ellir "tanbriso effaith y pandemig ar y gweithlu".

**67.** Mae denu gweithwyr newydd a chadw staff gofal cymdeithasol presennol yn her sylweddol i awdurdodau lleol. Dywed CLILC nad yw taliadau ychwanegol o £500 i staff gofal cymdeithasol i gydnabod eu gwaith "yn mynd i'r afael â chyflog isel hirdymor staff gofal cymdeithasol". Yn gwaethygu'r sefyllfa mae cystadleuaeth o du sectorau eraill, megis y GIG, sy'n gallu cynnig "telerau ac amodau gwell", a staff yn gwneud dewisiadau o ran eu ffordd o fyw megis lleihau eu horiau gweithio.

**68.** Er mwyn ymateb i rai o'r problemau recriwtio a chadw staff yn y sector, mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod wedi gwneud y canlynol:

*"cynnwys cyllid drwy'r setliad Llywodraeth Leol i alluogi awdurdodau lleol i dalu'r costau ychwanegol o ddechrau'r Cyflog Byw gwirioneddol o £9.90 yr awr i weithwyr gofal cymdeithasol o fis Ebrill 2022."*<sup>41</sup>

**69.** Dywedodd y Cyngorydd John wrthym fod cadw staff i weithio yn y sector gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn her i'w awdurdod ei hun, er ei fod eisoes yn talu'r cyflog byw gwirioneddol i'w staff gofal cymdeithasol:

*"Here in our local authority, we already pay above the real living wage to our care workers, but, obviously, we do use the independent sector as well. So, there will be discussions there to make sure that the real living wage can be paid there as well. But I think the Welsh Government are right to recognise there is a long-term issue here. And the fact that, as a country, we're still paying people who provide palliative care to some of the most vulnerable people in our country below what we would pay someone to stack shelves in a supermarket or work in a bar—you know, that feels wrong as a country."*<sup>42</sup>

<sup>40</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p113](#)

<sup>41</sup> Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2022-23, [Tudalen 19](#)

<sup>42</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p35](#)

**70.** Pwysleisiodd y Cyngorydd John hefyd bwysigrwydd bod llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw:

*"Recruitment and retention are significant problems we're facing. [ ] I suppose that long-term change of making it a more attractive industry is something where local government and Welsh Government need to work together."*<sup>43</sup>

**71.** Cyfeiriodd y Gweinidog at £60 miliwn ychwanegol o gyllid uniongyrchol a ddarparwyd yn y gyllideb i ysgogi diwygiadau ehangach i'r sector ac i geisio ei roi ar sylfaen fwy hirdymor a chynaliadwy. Cyfeiriodd y Gweinidog at waith sy'n cael ei arwain gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n cynnwys y canlynol:

*"the professionalisation of the workforce, for example, through the registration of the social care workforce, to give it that kudos, to give it a more formal path through employment in terms of training opportunities and professional development and so on.*

*So, I think that there's lots that needs to be done, both in terms of recognising the sector through pay, but also through kudos and respect, because I think most people have had a new understanding of the importance of social care through the pandemic, and we need to build on that now."*<sup>44</sup>

## **Ein barn ni**

---

**72.** Rydym yn pryderu am yr anawsterau y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu o hyd wrth recriwtio a chadw staff ar draws pob maes gwasanaeth, ond yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i'r holl staff gofal a gyflogir gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, bydd llawer o'r rhai sy'n darparu gofal ar ran awdurdodau yn cael eu cyflogi gan ddarparwyr allanol. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn darparu gwasanaethau hanfodol i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, felly mae denu staff addas i lenwi'r rolau hynny'n hollbwysig a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod eisiau aros yn y sector. Mae cyflog cystadleuol a chyfleoedd datblygu gyrfa yn allweddol i gadw staff da. Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch yr anawsterau cynyddol y mae ddarparwyr gofal yn eu hwynebu wrth gadw staff sy'n gallu cael telerau ac amodau gwell yn gweithio yn y sectorau manwerthu a lletygarwch. Rydym yn croesawu'r cyllid uniongyrchol ychwanegol o £60 miliwn yn y gyllideb ar gyfer diwygio'r sector gofal a sylwadau'r

---

<sup>43</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p113](#)

<sup>44</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p251-252](#)

---

Gweinidog ynghylch proffesiynoli'r gweithlu. Er gwaethaf y cyllid ychwanegol hwn, rydym yn pryderu o hyd am gynaliadwyedd hirdymor y gweithlu gofal cymdeithasol, a hoffem wybod sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y cyllid hwn yn cyflawni ei nodau.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol, yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut y mae'n rhagweld y bydd y £60 miliwn a nodwyd gan y Gweinidog ar gyfer diwygio'r sector gofal yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor y sector.

## Dyfodol llywodraeth leol

**73.** Mae llawer o heriau'n wynebu llywodraeth leol, yn cynnwys adfer wedi'r pandemig a'r newid yn y dirwedd yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE. Mae hefyd wedi cychwyn ar waith trawsnewid digidol a disgwylir iddi weithredu diwygiadau amrywiol a darpariaethau statudol newydd.

**74.** Daeth rhai o'r diwygiadau allweddol i fodolaeth gyda phasio **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**. Mae'n rhoi dulliau a phwerau newydd i awdurdodau lleol ar gyfer ymdrin â rhai o'r heriau niferus sy'n wynebu'r sector. Er enghraifft, mae Memorandwm Esboniadol y ddeddfwriaeth yn datgan bod y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn y Ddeddf yn galluogi awdurdodau lleol "i ystyried dulliau mwy trawsnewidiol o ddarparu gwasanaethau".<sup>45</sup> Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, sydd â'r nod o hwyluso mwy o weithio rhanbarthol a chydweithio mewn meysydd fel addysg a thrafnidiaeth.

**75.** Mae trawsnewid digidol wedi bod yn rhan o'r rhaglen llywodraeth leol ers blynyddoedd lawer, ond erbyn hyn mae momentwm gwirioneddol o ran datblygu a defnyddio offer digidol i wella gwasanaethau i ddefnyddwyr. Sefydlodd Llywodraeth flaenorol Cymru Gronfa Trawsnewid Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol "er mwyn canfod a chynyddu'r cyfleoedd i ddatblygu trawsnewid digidol mewn llywodraeth leol yng Nghymru."<sup>46</sup>

**76.** Mae'r **Strategaeth Ddigidol i Gymru**, a gafodd ei lansio ym mis Mawrth 2021, yn gam arall ar y daith hon. Mae'n cynnwys gweledigaeth genedlaethol ar gyfer trawsnewid digidol, ac yn ceisio ysgogi newid diwylliannol o ran y modd y mae cyrff cyhoeddus yn darparu ac yn moderneiddio gwasanaethau, fel eu bod yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr. Mae'r gyllideb

<sup>45</sup> Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.31

<sup>46</sup> Llywodraeth Cymru, Cronfa Trawsnewid Digidol Llywodraeth Leol: canllawiau, t1

ddrafft yn dyrannu £8.4 miliwn ar gyfer trawsnewid a deddfwriaeth yn 2022-23, gan godi i £9 miliwn erbyn 2024-25.

**77.** Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) Trawsnewid a Deddfwriaeth yn un benodol i lywodraeth leol, gan ddarparu cymorth i gyflwyno diwygiadau a thrawsnewid gwasanaethau. Er enghraifft, fe'i defnyddiwyd yn flaenorol i baratoi ar gyfer ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed, ac i helpu i weithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a chyllid ar gyfer trawsnewid digidol.

**78.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn credu y byddai'r setliad yn galluogi llywodraeth leol i wneud cynnydd gyda thrawsnewid digidol a chydweithio drwy'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig:

*"I do think that the budget does provide now for effective local government, going forward. [ ] I think, particularly in terms of digital transformation, there is so much going on at the moment. We're supporting continued work to implement the local government and elections Act, and we do that through the transformation and legislation budget. That does provide for transformation in a number of areas, including digital transformation."<sup>47</sup>*

*"in terms of CJs—again, an exciting agenda—there's lots going on there. We have provided specific grant funding to help the local authorities and the regions put their plans in place, but of course, we would envisage now that their work would be funded via local authorities going forward, as things start to develop and gain some pace."<sup>48</sup>*

**79.** Roedd cynrychiolwyr llywodraeth leol yn hyderus y byddai'r setliad llywodraeth leol yn galluogi awdurdodau i fod yn uchelgeisiol yn eu nodau ar gyfer trawsnewid digidol a dulliau cydweithredol. Dywedodd y Cynghorydd Hunt wrthym:

*"Yes, I believe that we can do that, both in terms of the settlement and in terms of the funding that Welsh Government's given us, and there is £1 million to support the development of CJs. So, in terms of our regional working, I believe that we can move forward with that and develop that. And in terms of our internal workings as well, we're looking at three categories around digital customer services in communities, and I believe this budget*

---

<sup>47</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p265](#)

<sup>48</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p268](#)

---

*gives us the space to try and properly develop those themes to improve services in the longer term and to improve outcomes too.*<sup>49</sup>

## Ein barn ni

**80.** Rydym yn croesawu'r sylwadau gan gynrychiolwyr llywodraeth leol y bydd y setliad yn galluogi awdurdodau i barhau i ddatblygu dulliau cydweithredol ar draws gwahanol feysydd darparu gwasanaethau, a'u hymrwymiad i wneud hynny. Byddem yn ceisio ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cyllid a ddarperir ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn briodol, ac nad yw ariannu'r rhain yn y dyfodol ar draul gofynion presennol llywodraeth leol.

## 3. Tai

### Digartrefedd a chymorth tai

**81.** Lansiodd Llywodraeth Cymru ei **strategaeth ar ddigartrefedd** newydd ym mis Hydref 2019. Ynndi roedd yn addo gwneud digartrefedd "yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto". Mae'r strategaeth newydd yn ffafrio dull mwy unigol ac awydd i gael ystod o wasanaethau cyhoeddus, nid gwasanaethau tai yn unig, i weithio ar y cyd i atal a lliniaru digartrefedd. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026** (y "Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd").

**82.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n ymrwmo i wneud y canlynol:

*"Diwygio cyfraith tai a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym."*<sup>50</sup>

**83.** Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys dyraniad refeniw ychwanegol o £13.24 miliwn ar gyfer atal digartrefedd (o waelodlin diwygiedig sy'n eithrio cyllid dros dro ar gyfer COVID), gan roi dyraniad gwerth cyfanswm o £31.147 miliwn yn 2022-23. Mae dyraniadau dangosol yn cynyddu £5 miliwn ym mhob un o'r blynyddoedd ariannol dilynol i ddyfarniad gwerth cyfanswm o ychydig dros £41 miliwn yn 2024-25.

<sup>49</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, p124](#)

<sup>50</sup> Llywodraeth Cymru, [Y Rhaglen Lywodraethu](#)

**84.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r sector i ddeall sut beth yw'r agenda atal yn ogystal ag agwedd aciwt y gwaith o wneud yn siŵr nad yw pobl yn cysgu ar y stryd. Dywedodd fod bwriad y grant atal fel a ganlyn:

*"enable all council services to include the 'no one left out' approach and wraparound support services, and it also funds the Housing First programme, the youth innovation fund, advice services, the private sector leasing scheme and a range of homelessness prevention activities in the third sector."*<sup>51</sup>

**85.** Y Grant Cymorth Tai yw prif ffrwd ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer atal digartrefedd a chefnogi byw'n annibynnol. Yn dilyn cynnydd o £40 miliwn yn 2021-22, mae dyraniad y gyllideb ddrafft ar gyfer y Grant hwn yn 2022-23 yn cael aros yr un fath mewn termau arian parod, gyda swm o £166.8 miliwn. Dywedodd y Gweinidog:

*"We've worked very closely with third sector partners across the system as well as our statutory partners, and, again, I want to just pay tribute to the way the sector pulled together through the pandemic and has taken the learning from that forward. We're all absolutely determined across Wales to make sure that we fundamentally reform the services going forward."*<sup>52</sup>

**86.** Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn nodi'r niferoedd "nas gwelwyd o'r blaen" o bobl sydd mewn llety dros dro ar hyn o bryd.<sup>53</sup> Mae'r **data diweddaraf** ar gyfer mis Hydref 2021, ac yn dangos bod 1,187 o bobl a oedd wedi cyflwyno'n ddigartref wedi'u rhoi mewn llety dros dro yn ystod y mis, 172 yn llai nag yn y mis blaenorol. Ar 31 Hydref 2021, roedd 7,076 o bobl mewn llety dros dro brys – roedd 1,728 yn blant dibynnol o dan 16 oed. Cafodd bron 600 o bobl eu symud i lety parhaol hirdymor yn ystod y mis. Amcangyfrifwyd bod 132 o bobl yn cysgu ar y stryd ar 31 Hydref 2021, cynnydd o 4 ers y mis blaenorol.

**87.** Gan gydnabod bod 1,000 a mwy o bobl yn cyflwyno'n ddigartref y mis o hyd wrth i ni ddod allan o'r pandemig, dywedodd y Gweinidog wrthym y bydd £10 miliwn yn cael ei roi i gynghorau i sicrhau eu bod yn gallu parhau i ddarparu llety dros dro, ond hefyd i annog ffocws ar atal digartrefedd ac ailgartrefu pobl yn barhaol. Ychwanegodd:

*"we need to make sure that we've got the right support in place to allow council and registered social landlord—councils' in particular—homelessness services to make sure that they're supporting people to stay in their current*

---

<sup>51</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p20](#)

<sup>52</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p20](#)

<sup>53</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 21 Ionawr 2022, [Papur.1](#)

*tenancy or their current housing if that's at all possible and appropriate, rather than allowing them to fall out particularly of private sector tenancies only to then go back through the loop with all of the personal trauma that that entails, but also, quite often, the increased finance requirement that that entails."*<sup>54</sup>

**88.** Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cyd-fynd â'r gyllideb ddrafft yn nodi bod "llawer o rieni o leiafrifoedd ethnig wedi dweud wrth yr awdurdodau lleol eu bod yn ddigartref"<sup>55</sup>. Mae hyn i'w briodoli i'r ffaith bod llawer o gynigion o drefniadau tai dros dro gan ffrindiau neu aelodau o'r gymuned wedi cael eu tynnu'n ôl yn dilyn cyngor y llywodraeth i ynysu yn ystod y cyfyngiadau symud. Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd hi'n gyfarwydd â'r llinell benodol honno yn yr asesiad effaith strategol.<sup>56</sup> Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud:

*"we do know that some ethnic minority people in communities are disproportionately likely to be living in poverty and more susceptible, therefore, to being homeless."*<sup>57</sup>

**89.** Mynegodd y Gweinidog bryder hefyd, wrth i'r pandemig ddod i ben, na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu helpu pobl nad oes ganddynt unrhyw hawl i arian cyhoeddus. Esboniodd:

*"we've been able to use public health legislation in order to extend help and support to people with no recourse to public funds on the grounds of the public health emergency. Once the public health emergency is no longer with us, we will no longer be able to use those powers. We'll revert to the previous situation, where there's a long list of funding that's not available to people with no recourse to public funds—a desperate situation for many that we are very unhappy about. So, we're putting pressure on the UK Government to enable us to continue to assist people who are in that position. It's one of the deep political divisions, I have to say, between the Welsh and Scottish Governments in particular and the current UK Government. So, we continue to make that point, but we've been able to do it through the pandemic because of the public health emergency."*<sup>58</sup>

<sup>54</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p22](#).

<sup>55</sup> [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2022-23, Para 36](#).

<sup>56</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p27](#).

<sup>57</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p28](#).

<sup>58</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p35](#).

## Ein barn ni

---

**90.** Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym. Rydym yn croesawu ymhellach yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru na fydd unrhyw ddychwelyd at y dull cyn y pandemig o ymdrin â digartrefedd. Serch hynny, rydym yn pryderu bod nifer "nas gwelwyd o'r blaen" o bobl mewn llety dros dro ar hyn o bryd a bod niferoedd sylweddol yn parhau i gyflwyno eu hunain yn ddigartref bob mis. Mae angen symud pobl i lety parhaol hirdymor os yw digartrefedd i fod yn "brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto". Byddai hyn hefyd yn rhoi sicrwydd tymor hwy i'r rhai sy'n darparu ac yn defnyddio gwasanaethau digartrefedd. Mae perygl hefyd y gallai awdurdodau lleol wynebu heriau ariannol os bydd nifer y bobl mewn llety dros dro yn parhau i gynyddu.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fwrw ymlaen â'r argymhellion gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, a'r camau gweithredu a amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Rydym yn argymhell ymhellach bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos y pwysau ar lety dros dro argyfwng i sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr adnoddau ariannol angenrheidiol a mynediad at lety digonol i barhau â'r dull "pawb i mewn".

**91.** Roeddem yn pryderu bod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi dangos bod llawer o rieni o leiafrifoedd ethnig wedi dweud wrth awdurdodau lleol eu bod yn ddigartref yn ystod y pandemig. Ysgrifennwyd at y Gweinidog ynghylch hyn yn dilyn ein sesiwn graffu a darparodd **ymateb** ar 26 Ionawr.

**92.** Nodwn y Camau Gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, gan gynnwys y Cam Gweithredu i wella ymyrraeth gynnar a mesurau atal wedi'u targedu, a'n gobaith yw y caiff y cynllun ei roi ar waith yn effeithiol.

**93.** Rydym hefyd yn pryderu, wrth i'r pandemig ddod i ben, na fydd awdurdodau lleol yn gallu helpu pobl heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus. Mae cyflwyno deddfwriaeth iechyd cyhoeddus i ymestyn cymorth a chefnogaeth i bobl nad oes ganddynt unrhyw hawl i arian cyhoeddus wedi bod yn achubiaeth i lawer yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y bydd rhai pobl yn disgyn drwy'r bylchau cyn bo hir ac na fyddant yn gymwys i gael cymorth unwaith y bydd yr argyfwng iechyd cyhoeddus drosodd. Rydym yn nodi'r **wybodaeth ychwanegol** a gawsom gan y Gweinidog i'r perwyl hwn sy'n amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn. Rydym yn falch hefyd fod y Gweinidog wedi dweud wrthym ei bod yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i ddod o hyd i gyllid ar gyfer pobl yn y sefyllfa hon, a byddem yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn frwd yn hyn o beth.



**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau, ar ôl yr argyfwng iechyd cyhoeddus, ei bod yn parhau i allu rhoi cymorth a chefnogaeth yn ymwneud â thai i bobl nad oes ganddynt unrhyw hawl i arian cyhoeddus.

## Y cyflenwad tai

**94.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel i'w rhentu. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Cyllid ar 19 Ionawr 2022, dywedodd Sefydliad Bevan na fydd yr ymrwymiad o 20,000 yn ddigon i ymdrin â rhai o'r problemau a welant.<sup>59</sup>

**95.** Eglurodd y Gweinidog mai 20,000 yw'r targed ac os oes modd rhagori arno, gorau oll.<sup>60</sup> Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud nad yw'r cynnydd yn y gyllideb yn trosi'n uniongyrchol i lawer mwy o gartrefi oherwydd y cynnydd cyflym mewn costau a phroblemau yn y gadwyn gyflenwi. Dywedodd:

*"I have to say, though, that it's pretty ambitious given what we know has been able to be achieved elsewhere in the supply chain and so on. And you will be very aware, I know, of the difficulties in rising supply-chain problems, costs, availability of labour and so on. So, it's already costing us somewhere around 30 per cent more to build each social home. So, we're having to put about 30 per cent more social housing grant into those to make them viable, and we're experiencing some difficulty."<sup>61</sup>*

**96.** Yn ogystal â phroblemau'n ymwneud â chostau ac argaeledd llafur i adeiladu'r tai cymdeithasol, dywedodd y Gweinidog fod problemau gwirioneddol hefyd o ran llafur medrus a sicrhau bod gennym fusnesau bach a chanolig hyfyw ac ati i'n helpu i adeiladu'r tai cymdeithasol. Amlinellodd y Gweinidog rywfaint o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i geisio mynd i'r afael â'r problemau hyn:

*"We've got a housing construction forum, talking to our SME builders, just trying to understand what the issues are for them. Obviously, I've met with the registered social landlords and very recently with the council cabinet*

<sup>59</sup> Y Pwyllgor Cyllid, [Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2022, paragraff 112-113](#)

<sup>60</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p38](#)

<sup>61</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p39](#)

*members across Wales for housing to just discuss how we can use our combined effort to try and overcome some of these issues."*<sup>62</sup>

**97.** Eglurodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru hefyd yn annog adeiladu tai cydweithredol a thai ymddiriedolaeth ar dir cymunedol er mwyn cael mwy o dai nad ydynt yn y sector preifat.

**98.** Y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yw prif grant cyfalaf Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu tai fforddiadwy. Mae ar gael i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ac i awdurdodau lleol hefyd erbyn hyn. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, galwodd Cartrefi Cymunedol Cymru, y corff cynrychioliadol ar gyfer cymdeithasau tai, am ddyraniad o £300 miliwn.<sup>63</sup> Yn y gyllideb ddrafft mae dyraniad cyfalaf o £310 miliwn yn 2022-23 ar gyfer Grantiau Tai Cymdeithasol, cynnydd o tua £10 miliwn ers 2021-22.

**99.** Yn dilyn y Cytundeb Cydweithio, bellach mae ymrwymadau ychwanegol yn ymwneud â chyflenwad tai yn y Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol "i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy". Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys dyraniad refeniw o £1 miliwn i ddatblygiad Unnos yn 2022-23. Nodir fel a ganlyn ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog:

*"Byddwn yn archwilio cyfleoedd i sefydlu Unnos o fewn yr amlen hon, a chaiff manylion pellach eu cwmpasu wrth inni gynnal astudiaethau dichonoldeb a'r diwydrwydd dyladwy gofynnol."*<sup>64</sup>

**100.** Eglurodd y Gweinidog y cysyniad o Unnos i ni, gan ddweud y canlynol:

*"this is a gap-filling expert resource, an ability to recruit people perhaps centrally instead of everybody trying to recruit the same two people across Wales and driving the price up."*<sup>65</sup>

**101.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd hi'n hyderus bod gan Lywodraeth Cymru y mesurau ar waith i sicrhau gwerth am arian o'r buddsoddiad hwnnw. Atebodd y Gweinidog:

*"we haven't got it in place yet, because we haven't got the company in place yet. But part of the discussion, of course what we're doing is making sure that we get value for money out of it. The amount of money that we allocated to it is based on some of the ideas we got for what it might be able to do, and*

---

<sup>62</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p44](#)

<sup>63</sup> Y Pwyllgor Cyllid, [WGDB 22-23.18, Cartrefi Cymunedol Cymru](#)

<sup>64</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 21 Ionawr 2022, [Papur.1](#)

<sup>65</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p49](#)

---

*we'll obviously monitor that closely. If it's not enough, then obviously I'll be looking for more.*

*And, if we've overestimated it, which seems extremely unlikely, then obviously we've got plenty of use for it elsewhere in the MEG and we'll be moving it around. But, there are a number of things that we think an arm's-length company could do that the Welsh Government can't do because of financial constraints, and so on, including working with the SME sector, as I said. So, none of this is finalised, Chair, I would like to just emphasise that. It's subject to an ongoing discussion, both with our co-operation agreement partners and inside the Welsh Government and, indeed, with sector partners, and so on. So I just wanted to put any hares that have been set running to bed, because there's no need for them."<sup>66</sup>*

**102.** Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi nodi y bydd cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir ("LTT") yn cael eu cadw ar 4 pwynt canran i gefnogi'r buddsoddiad mewn tai cymdeithasol. Lansiodd [ymgyngoriad](#) ar 20 Rhagfyr 2021 ar amrywiad lleol arfaethedig i gyfraddau LTT ar gyfer ail gartrefi, llety gwyliau tymor byr ac eiddo eraill o bosibl.

**103.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog sut mae'r dyraniadau o fewn y gyllideb ddrafft yn adlewyrchu'r gwaith a'r cynnydd yr hoffai Llywodraeth Cymru ei weld mewn perthynas ag ail gartrefi. Eglurodd y Gweinidog fod y gyllideb ddrafft yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn dal i fod yn y cyfnod ymgynghori ar nifer fawr iawn o'r elfennau hynny, gan gynnwys y Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg drafft.<sup>67</sup> Aeth ymlaen i ddweud y bydd newidiadau di-os yn y gyllideb wrth i ymatebion i'r ymgynghoriadau hynny ddod i law a byddai'r polisi'n cael ei addasu yn unol â hynny.<sup>68</sup>

**104.** Mae cyllidebau blaenorol wedi gweld dyraniadau sylweddol o gyfalaf trafodion ariannol ar gyfer y cynllun Cymorth i Brynu. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi prynwyr tai drwy ganiatáu iddynt brynu eiddo sydd wedi'i newydd o'r newydd gyda blaendal o 5% a benthyciad ecwiti a rennir o hyd at 20% o'r pris prynu. Mae hefyd yn cefnogi'r diwydiant adeiladu. Mae cam presennol Cymorth i Brynu ar fin dod i ben ym mis [Mawrth 2023](#) ond ni sonnir am unrhyw ddyraniadau ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Fodd bynnag, mae

<sup>66</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p52-53](#)

<sup>67</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p75](#)

<sup>68</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p76](#)

dogfen naratif y gyllideb ddrafft yn nodi y bydd dyraniadau cyfalaf trafodion ariannol pellach yn cael eu gwneud yn y Gyllideb Derfynol, sydd i'w chyhoeddi ar 1 Mawrth 2022.<sup>69</sup>

**105.** At hynny, dywedodd y Gweinidog wrthym yr hoffai Llywodraeth Cymru, o hyn ymlaen, ddefnyddio'r cynllun Cymorth i Brynu, nid yn unig i helpu pobl i brynu eu cartref cyntaf, ond hefyd i annog busnesau bach a chanolig ac adeiladwyr tai mawr i godi eu safonau. Yn ôl y Gweinidog, yr hyn y maent yn ei ddweud yn ei hanfod yw na chewch y Cymorth i Brynu oni bai eich bod yn bodloni rhai o'n safonau gofynnol.<sup>70</sup> Fodd bynnag, mae'r sgwrs ynghylch faint o ddyraniadau cyfalaf trafodion ariannol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cael yn parhau.<sup>71</sup>

**106.** Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn derbyn dyraniad cyfalaf o £62.34 miliwn yn 2022-23 gyda dyraniadau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol yn aros ar yr un lefel. Mae'r rhaglen ariannu hon yn darparu tai a llety i ddiwallu anghenion gofal gan gynnwys gofal ychwanegol a llety arall ar gyfer pobl hŷn a phobl â dementia. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn nodi mai prif nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu'r stoc bresennol gan oddeutu 930 o unedau dros gyfnod o dair blynedd.<sup>72</sup> Bydd hyn yn cyfrif tuag at y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu.

**107.** Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog a fydd 930 o unedau yn ddigon i ateb y galw o ystyried bod y boblogaeth dros 65 oed yn debygol o gynyddu'n sylweddol dros y pum mlynedd nesaf. Dywedodd y Gweinidog a'i swyddogion wrthym fod y Gronfa Gofal Integredig yn elfen bwysig dros ben ond mai dim ond un rhan ydyw o ddarlun sy'n tyfu drwy'r amser.<sup>73</sup> Disgrifiodd y Gweinidog ateb yn seiliedig ar dai i nifer o broblemau'n ymwneud â gofal cymdeithasol, gan esbonio:

*"The reason that we want the standards of housing to come up is we want people to have houses for life, houses that are adaptable so that if you do end up with mobility difficulties, your house caters for that. If you have an expanding and then declining family, your house caters for that. It caters for the ability of carers to stay with you, and so on. So, there is a thing about getting the housing supply right in the first place so you don't need some of this specialist stuff."*

---

<sup>69</sup> Llywodraeth Leol, [Cyllideb Ddrafft 2022-23](#), Atodiad E

<sup>70</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p55](#)

<sup>71</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p56](#)

<sup>72</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 21 Ionawr 2022, [Papur.1](#)

<sup>73</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p66](#)

---

*But also, of course, we are working with health and social care colleagues across the board to make sure that we have this integrated system in place.”<sup>74</sup>*

**108.** Clywsom mai un o’r pethau y mae’r Gweinidog yn awyddus i’w wneud yw integreiddio’r Grant Tai Cymdeithasol a’r Gronfa Gofal Integredig yn agosach wrth i awdurdodau lleol ddod yn fwy medrus wrth gynllunio anghenion y dyfodol yn fanwl, fel bod Llywodraeth Cymru yn barod gyda’r cyllid cywir i gefnogi’r gwaith o adeiladu ac addasu’r cartrefi sydd eu hangen yn y dyfodol.<sup>75</sup>

## Ein barn ni

**109.** Clywsom fod Llywodraeth Cymru yn cael problemau go iawn gyda chwyddiant prisiau deunyddiau, oedi yn y gadwyn gyflenwi a phrinder llafur medrus wrth geisio adeiladu cartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i’w rhentu. Rydym yn pryderu y bydd y problemau hyn yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged o 20,000 o dai fforddiadwy, yn enwedig gan inni glywed efallai na fydd y nifer hwn yn ddigon i fynd i’r afael â phroblemau gyda’r cyflenwad tai yng Nghymru. Rydym felly’n pryderu na fydd y dyraniad ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol yn ddigon o bosibl, yn enwedig o ystyried y costau ychwanegol sy’n gysylltiedig â gwneud y cartrefi hyn yn garbon isel.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn mynd i’r afael â phroblemau sy’n ymwneud â phrisiau deunyddiau, y gadwyn gyflenwi a gweithlu medrus er mwyn cyrraedd ei tharged o ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd.

**110.** Rydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i sefydlu Unnos ac edrychwn ymlaen at glywed mwy o fanylion am y cwmni adeiladu cenedlaethol newydd hwn a sut y bydd yn cefnogi landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i wella’r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy. Rydym yn awyddus hefyd i wybod sut y bydd y cwmni’n gweithio gyda datblygwyr yn y sector preifat. Fel gyda phob penderfyniad buddsoddi, mae’n bwysig sicrhau gwerth am arian o greu Unnos.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, unwaith y bydd Unnos wedi’i sefydlu, yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor ar sut y caiff ei fonitro a mesurau sydd ar waith i sicrhau gwerth am arian o’r buddsoddiad.

<sup>74</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p63-64](#)

<sup>75</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p66](#)

**111.** Rydym yn pryderu bod cyfnod presennol y cynllun Cymorth i Brynu, sydd wedi galluogi nifer o bobl i brynu eu cartref cyntaf ac wedi cefnogi'r sector adeiladu, i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2023 ond nad oes unrhyw ddyraniadau yn y gyllideb ddrafft. Clywsom hefyd gan y Gweinidog y gellid defnyddio'r cynllun yn y dyfodol i godi safonau drwy ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bach a chanolig ac adeiladwyr tai mawr gydymffurfio â safonau tai gofynnol er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, cyn y ddatl ar y gyllideb derfynol, yn rhoi blaenoriaeth i ddyrannu cyllid ar gyfer y cynllun Cymorth i Brynu.

**112.** Mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi bod yn amhrisiadwy o ran darparu tai a llety sy'n diwallu anghenion pobl. Rydym yn croesawu cynlluniau i integreiddio'r gronfa a'r Grant Tai Cymdeithasol yn agosach er mwyn helpu i hybu integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a thai. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi diweddariad cynnydd i ni ar hyn. Fodd bynnag, o ystyried bod y boblogaeth dros 65 oed yn debygol o gynyddu'n sylweddol dros y pum mlynedd nesaf, rydym yn pryderu efallai na fydd dyraniad cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig o £62.34 miliwn yn 2022-23 yn ddigon i ateb y galw. Nid yw'r ffigur hwn wedi cynyddu ers y llynedd ac mae'r dyraniadau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol yn aros ar yr un lefel.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd y dyraniad cyllidebol ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig yn cael ei ddefnyddio i ateb y galw cynyddol am dai addas ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.

## Diogelwch adeiladau

**113.** O ran diogelwch adeiladau, mae dyraniad refeniw ychwanegol o £5 miliwn yn 2022-23 sy'n dod â chyfanswm dyraniad y flwyddyn honno i £8.545 miliwn. Mae dyraniadau refeniw dangosol yn cynyddu £1 miliwn pellach yn 2023-24, a £500,000 pellach yn 2024-25. Mae dyraniadau cyfalaf o £75 miliwn yn 2022-23, £135 miliwn yn 2023-24, a £165 miliwn yn 2024-25 a fydd yn cefnogi adfer adeiladau.

**114.** Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn nodi y bydd cyllid refeniw yn cefnogi arolygon diogelwch tân a chreu Pasbortau Adfer Adeiladau ar gyfer pob adeilad uchder canolig ac uchel iawn ledled Cymru.<sup>76</sup> Bydd **Cronfa Adfer Adeiladau** Llywodraeth Cymru yn darparu mynediad at grantiau i ariannu arolygon adeiladau, ac mae dros 100 o ddatganiadau o ddiddordeb wedi dod i law ar eu cyfer.

---

<sup>76</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 21 Ionawr 2022, [Papur.1](#)

**115.** Yn fwyaf diweddar gwnaeth y Gweinidog **ddatganiad** ar ddiogelwch adeiladau ym mis Rhagfyr 2021 pan gafodd ymatebion i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, **Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru**, eu cyhoeddi. Ailadroddodd y Gweinidog yr hyn y mae hi wedi'i ddweud dro ar ôl tro, sef "na ddylai lesddeiliaid orfod talu'r bil i wneud eu hadeiladau yn ddiogel". Cadarnhaodd y Gweinidog yn y datganiad hwnnw hefyd y byddai Llywodraeth Cymru, mewn "nifer cyfyngedig o achosion", yn rhoi mynediad i lesddeiliaid sy'n wynebu caledi ariannol at gynllun newydd a fyddai'n eu galluogi i werthu.

**116.** Mewn ymateb i'n cwestiwn a fydd lesddeiliaid sy'n landlordiaid yn cael cymorth i ariannu atgyweiriadau mewn adeiladau diffygiol, dywedodd y Gweinidog nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniad hyd yma ynghylch sut y bydd y cyllid yn cael ei gyfrifo, gan ei bod wrthi'n datblygu'r system Pasbort Adfer Adeiladau. Esboniodd:

*"At this point in time, we're still trying to figure out what's wrong with the buildings. We don't know that for every building. That's the whole point of the building passport system. We also aren't going to be able to just fix all of these things in one go. Some of these buildings have really complicated problems, which will require a number of attempts at remediation. Obviously, we need to understand what the worst cases are and put those right first and so on. So, this is no short-term fix to some of this."*<sup>77</sup>

**117.** Aeth yn ei blaen i ddweud y canlynol:

*"I am very worried about investment, unscrupulous investment companies taking advantage of people buying their things at rock bottom and then hoping the public purse will make their investment good, if I'm honest, and we will be looking to see what we can do about that. But much more important is just to get the things corrected."*<sup>78</sup>

**118.** Eglurodd y Gweinidog fod angen i Lywodraeth Cymru weld canlyniadau'r arolygon er mwyn ceisio darganfod faint o arian rydym ni'n sôn amdano a'r ffordd orau i fynd i'r afael â'r sefyllfa.<sup>79</sup> Yn ôl y Gweinidog:

*"...what we're doing, I think, is a very measured attempt to make sure that we put the leaseholders into the best possible position to protect their*

<sup>77</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p112](#)

<sup>78</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p114](#)

<sup>79</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p116](#)

*investment as well as make sure that their homes are fit for purpose and safe going forward.”<sup>80</sup>*

## Ein barn ni

---

**119.** Rydym yn croesawu'r refeniw ychwanegol yn y gyllideb ddrafft i gefnogi arolygon diogelwch tân a chreu Pasbortau Adfer Adeiladau ar gyfer pob adeilad uchder canolig ac uchel iawn ledled Cymru. Rydym yn sylweddoli mai blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw penderfynu beth sydd o'i le ar yr adeiladau hyn ac efallai na fydd atebion cyflym. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ddarparu atebion i lesddeiliaid a thenantiaid yn ogystal â gwybodaeth am ddiogelwch eu hadeiladau, felly rydym yn annog y Gweinidog i sicrhau bod yr arolygon yn mynd yn eu blaenau'n gyflym.

**120.** Nodwn onestrwydd y Gweinidog wrth ddisgrifio cymhlethdodau'r sefyllfa mewn perthynas ag ariannu gwaith adfer ar gyfer lesddeiliaid sy'n landlordiaid. Fodd bynnag, mae hwn yn gyfnod pryderus iawn iddynt hwy yn ogystal ag i'r rhai sy'n byw mewn eiddo â phroblemau diogelwch adeiladau. Rhaid i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn flaenoriaeth i roi atebion i lesddeiliaid a thenantiaid ynghylch sut y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi eglurder a sicrwydd i'r rhai yr effeithir arnynt.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar sut y gellir symud ymlaen yn gyflym â gwaith i wella diogelwch adeiladau uchder canolig ac adeiladau uchel iawn er mwyn rhoi sicrwydd i lesddeiliaid a thenantiaid. Rydym yn argymell ymhellach bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau na fydd yn rhaid i lesddeiliaid dalu costau adfer.

**121.** Fel Pwyllgor, rydym wedi bod yn ystyried y memoranda cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Diogelwch Adeiladau ac wedi cyhoeddi ein **hadroddiad** ar 15 Rhagfyr 2022. Mae rhai Aelodau'n bryderus o hyd ai Bil y DU yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflwyno diwygiadau i amddiffyn pobl sy'n byw mewn adeiladau uchel iawn yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio bod cyllid digonol i gyflawni'r diwygiadau hyn.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y caiff y dyraniadau ar gyfer diogelwch adeiladau eu defnyddio i roi Bil Diogelwch Adeiladau Llywodraeth y DU ar waith.

---

<sup>80</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p117



## Safonau tai

### Safonau tai cymdeithasol a datgarboneiddio

**122.** Mae Cymru Sero-Net yn nodi disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd tua 148,000 o dai ledled Cymru yn derbyn mesurau ôl-osod i leihau faint o wres sy'n cael ei golli erbyn 2025. Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ar agor i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol fel y gallant osod amrywiaeth o fesurau datgarboneiddio cartrefi yn y stoc tai cymdeithasol bresennol. Fodd bynnag, bydd yn "hwyluso gwaith profi a dysgu er mwyn llywio gwaith ôl-osod hirdymor ehangach ar bob cartref, ar draws pob deiliadaeth yng Nghymru". Gwneir dyraniad cyfalaf o £72 miliwn yn 2022-23 ar gyfer datgarboneiddio preswyl, ynghyd â chyfanswm dyraniad refeniw o £0.773 miliwn. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn nodi y "defnyddir cyllid refeniw yn bennaf i gefnogi'r sector tai cymdeithasol, drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio".<sup>81</sup>

**123.** Mewn ymateb i'n cwestiwn ynghylch a yw'r gyllideb ar gyfer ôl-osod yn ddigonol i ddiwallu anghenion y cymdeithasau tai, dywedodd y Gweinidog:

*"For the moment, absolutely, but, of course, the whole point of ORP is to find out what works and how much it costs. So, as we go forward, we'll be able to look at that. We're still working on the announcement for the next stage of the Welsh housing quality standard as well, and part of the calculation for that will be how much money is needed to put into that and over what time period to bring the houses up to whatever the next iteration we want to have. They're up to EPC D now; will the next Welsh housing quality standard bring them up to B or A—whatever it is? That's part of the ongoing conversation, and part of that, of course, is understanding what would need to be done to the houses in order to get them there. So, this is an ongoing conversation."<sup>82</sup>*

**124.** Gofynnwyd hefyd i'r Gweinidog a yw'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer ôl-osod yn ddigonol i alluogi cymdeithasau tai i ôl-osod eiddo heb gynyddu rhent i'r cap o 3.1 y cant. Dyma'i hymateb:

*"I've made absolutely clear to the sector that the rent cap is not a target; it is a ceiling [...] You need to do a calculation about what the affordability envelope looks like for your tenants, and what your income stream needs to*

<sup>81</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 21 Ionawr 2022, Papur.1

<sup>82</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p123

*look like in order to build the social homes that we need, and to keep your housing stock in the condition it wants to be in, and we've policed that, so I have difficult conversations where necessary...to make sure that people aren't just regarding it as a cash cow, so to speak. But it's a very difficult one, isn't it? It's a very difficult thing to calibrate, because we both want those social homes building that we just had the discussion about whether our target is even ambitious enough. Well, that money's got to come from somewhere, and we've put a social housing grant into that, but the rest of it, of course, comes from the registered social landlords and the councils themselves. So, it's a very important calibration and a very difficult one to do."*<sup>83</sup>

**125.** Cawsom sicrwydd gan y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol i sicrhau bod tenantiaid sy'n symud i mewn i dai cymdeithasol carbon isel newydd yn mynd i dai sy'n addas ar eu cyfer ac yn addas i'r diben:

*"Sometimes, there's tech that they have to get their heads around, sometimes, the heating systems are slightly different and so on. So, we absolutely do want to make sure that the people going into the houses are happy to be there, that the houses fit their needs and that includes, obviously, the planting and so on.....we're working very hard to make sure that our RSL and council partners have the right skills and budgets in order to maintain that, as well."*<sup>84</sup>

**126.** Yn ogystal â datgarboneiddio cartrefi, bwriad y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yw cyflwyno ystod o fanteision economaidd gan gynnwys sgiliau, hyfforddiant a chymorth i gadwyni cyflenwi. Esboniodd y Gweinidog:

*"So, what we're doing is, we're running a programme to make sure that we understand what best fits each type of house....And so, what we're doing is we're trialling that, de-risking it for people and we're also doing it in conjunction with economy and education colleagues so that we build both a knowledge database for what works, but also a skills database for the people who are skilled in putting in the equipment and interventions that matter."*<sup>85</sup>

---

<sup>83</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p120-121](#)

<sup>84</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p16](#)

<sup>85</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p99](#)

---

**127.** Bydd Safon Ansawdd Tai Cymru newydd yn cael ei chyflwyno yn 2022. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn nodi y "...disgwylir i hyn ymgorffori safon effeithlonrwydd ynni uwch a safon datgarboneiddio."<sup>86</sup> Tynnodd y Gweinidog sylw at fanteision cael safonau o'r fath ar gyfer tai'r sector preifat:

*"...once we know what works, we can start to roll that out with our social landlords. And again, as they did in the last one, they will over-skill the workforce and that workforce will become available in the private sector for people. Then, at that point, we will of course have to look at incentives—systems to assist homeowners to do that."<sup>87</sup>*

**128.** Pan ofynnwyd iddi a oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried cysylltu'r dreth gyngor â sgôr perfformiad ynni eiddo er mwyn cymell pobl i wneud gwaith datgarboneiddio eu hunain, dywedodd y Gweinidog nad ydynt yn ystyried hynny ar hyn o bryd, gan eu bod yng nghamau cynnar y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Fodd bynnag cydnabu y bydd yn rhaid iddynt weithio ar gymhellion a gorfodaeth i gael pobl i weithredu.<sup>88</sup>

**129.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'n hymgyngghoriad ar flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, nododd Archwilio Cymru bryderon ynghylch SATC, gan gynnwys sut yr oedd cynnydd o ran ei chyflawni yn cael ei fonitro a sut y dangoswyd gwerth am arian. Dywedodd Archwilio Cymru:

*"O ystyried yr heriau a welwyd wrth wireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y SATC presennol, bydd yn bwysig bod gwersi'n cael eu dysgu a'u cymhwyso i'r ffordd y caiff unrhyw safon newydd ei chynllunio, ei hariannu a'i monitro."<sup>89</sup>*

## Ein barn ni

**130.** Er ein bod yn croesawu'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, rydym yn pryderu y gallai fod yn rhaid i denantiaid ysgwyddo cyfran sylweddol o'r costau os caiff eu rhent ei gynyddu er mwyn galluogi landlordiaid cymdeithasol i dalu costau ôl-osod. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau na chaiff tenantiaid eu heffeithio'n andwyol gan ôl-osod tai cymdeithasol presennol.

<sup>86</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 21 Ionawr 2022, [Papur.1](#)

<sup>87</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p102](#)

<sup>88</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p107](#)

<sup>89</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [SSP.33 Archwilio Cymru](#)

**131.** Clywsom fod y Safon Ansawdd Tai Cymru newydd hefyd yn debygol o ymgorffori safon effeithlonrwydd ynni uwch a safon datgarboneiddio. Yn y dyfodol, rhaid i ddyraniadau cyllidebol ddarparu lefelau cyllid digonol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol i ddatgarboneiddio eu stoc. O ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd, dylai hyn gael ei adlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am sut mae'r dyraniad cyllidebol ar gyfer datgarboneiddio yn ddigon i gefnogi awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i symud ymlaen â gwaith ôl-osod ar y lefel a'r cyflymder gofynnol.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am sut y caiff y dyraniad yn y gyllideb ar gyfer datgarboneiddio ei fonitro a'i werthuso i ddangos gwerth am arian.

**132.** Rydym yn ymwybodol o bryderon ynghylch sut y cafodd cynnydd o ran cyflawni'r Safon Ansawdd Tai Cymru wreiddiol ei fonitro a sut y dangoswyd gwerth am arian. O ystyried bod y safon newydd yn debygol o ymgorffori safon datgarboneiddio, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol cael system fonitro a gwerthuso effeithiol ar waith.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am sut y bydd y SATC newydd yn cael ei monitro a pha fesurau a gaiff eu rhoi ar waith i sicrhau gwerth am arian.

## **Addasiadau**

---

**133.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y gyllideb ar gyfer addasiadau wedi cynyddu o £17.66 miliwn yn 2021-22 i £19.5 miliwn yn 2022-23. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn nodi bod hyn yn cefnogi ystod o wasanaethau addasu ar draws pob math o ddeiliadaeth.<sup>90</sup>

**134.** Mae'r Gweinidog yn nodi yn ei phapur tystiolaeth y bydd y Grant Addasiadau Ffisegol yn newid o fod yn gynllun a arweinir gan alw i gynllun grant seiliedig ar ddyraniad o fis Ebrill 2022.<sup>91</sup> Mae'r Gweinidog yn nodi bod Grantiau Addasiadau Ffisegol ar hyn o bryd yn cyfrif am tua 17% o gyfanswm y gwariant ar addasiadau ar "5.5% yn unig o'r stoc dai." Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi rheolaeth i gymdeithasau tai dros y gyllideb grant addasiadau ffisegol at y diben canlynol:

---

<sup>90</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 21 Ionawr 2022, [Papur.1](#)

<sup>91</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 21 Ionawr 2022, [Papur.1](#)

---

*"to allow them to take a more strategic approach to adaptations and increase the stock of accessible housing in Wales more generally. So, this is to make sure that they upfront change the housing so that it's accessible rather than waiting for each individual person to come along."*<sup>92</sup>

**135.** Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn nodi bod dyraniad refeniw ychwanegol o £0.5 miliwn yn 2022-23 (gan roi cyfanswm dyraniad o £4.8 miliwn) i ganiatáu i asiantaethau Gofal a Thrwsio "ehangu eu gwasanaethau i gynorthwyo rhyddhau achosion o'r ysbyty yn gyflym".<sup>93</sup> Nododd y Gweinidog y bydd hyn yn gwneud y canlynol:

*"support complex hospital discharge cases, where adaptations can't be installed until other essential repairs have been made, or where there are other complex issues such as hoarding and so on. So, sometimes, these budgets have to go to very arcane things to allow people to come out of hospital and back into their home, and it sometimes brings to light unexpected housing problems that also have to be sorted out."*<sup>94</sup>

**136.** Gofynnwyd i'r Gweinidog fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch amseroedd aros hir am addasiadau sy'n gysylltiedig â lle mae pobl yn byw. Sicrhodd y Gweinidog na ddylai fod system loteri cod post ar gyfer addasiadau.<sup>95</sup> Dywedodd wrthym y dylai datganoli'r gyllideb addasiadau i asiantaethau amrywiol gyflymu'r broses.<sup>96</sup> Amlinellodd y Gweinidog hefyd gamau eraill a gymerwyd i gyflymu'r broses, gan gynnwys cael gwared ar y prawf modd ar gyfer addasiadau canolig eu maint megis lifftiau grisiau ac ystafelloedd gwlyb a sgwrs barhaus gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y pot cywir o arian yn cael ei wario ar addasiadau.

**137.** Mae **data monitro** ar y system addasiadau bellach yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol. Cyn hyn, dywedodd Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru wrthym fod y data yn eithaf tameidiog. Aeth yn ei blaen i ddweud y canlynol:

*"It didn't allow us to see where there were differences in experiences for users, so we've improved that data, and there is now data published on the Welsh Government website. And we're doing further work to make sure that we enhance that so that it gives us better equalities and geographic data, so that*

<sup>92</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, t84](#)

<sup>93</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 21 Ionawr 2022, [Papur.1](#)

<sup>94</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, t83](#)

<sup>95</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p77](#)

<sup>96</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p88](#)

*we can monitor where those anomalies are and where the user experience may not be as good as it ought to be.*<sup>97</sup>

## Ein barn ni

---

**138.** Mae addasiadau tai yn chwarae rhan bwysig iawn ym mywydau pobl, gan alluogi pobl ag anabledau a phobl hŷn i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Rydym felly'n croesawu'r camau a gymerwyd i gyflymu'r broses ar gyfer addasu tai a'n gobaith yw y bydd data monitro ac ymchwil i berfformiad y rhaglen yn gwella'r profiad i ddefnyddwyr ymhellach.

**139.** Ein gobaith yw bod y dyraniad cyllidebol ar gyfer addasiadau yn ddigon i gefnogi dull cyson o ymdrin ag addasiadau ledled Cymru. Nodwn sylwadau'r Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio i ni, sef bod safonau gwasanaeth gofynnol wedi'u pennu yn 2019 ar gyfer darparwyr gwasanaethau addasu er mwyn darparu profiad mwy cyson i ddefnyddwyr.<sup>98</sup>

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n monitro safonau'r gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau addasu a'r effaith y mae'r safonau hynny wedi'i chael.

## Adfywio

**140.** Cyfanswm y dyraniadau cyfalaf i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Adfywio yw £20 miliwn yn 2022-23 gyda dyraniadau dangosol o £40 miliwn ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Mae dyraniad refeniw ychwanegol o £1.556 miliwn yn rhoi cyfanswm dyraniad refeniw o £2.116 miliwn yn 2022-23. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn nodi y bydd hyn yn cefnogi nifer o amcanion adfywio Llywodraeth Cymru gan ganolbwyntio ar ganol trefi.<sup>99</sup> Mae papur tystiolaeth y Gweinidog hefyd yn nodi y bydd cyllid refeniw yn cefnogi tai cydweithredol, mentrau cymunedol, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol.

**141.** Dywedodd y Gweinidog a'i swyddogion wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod 510 o adeiladau gwag yn cael eu defnyddio at ddiben buddiol. Dywedodd y Gweinidog:

*"it can either be a beloved building, or it can frankly be a real scar on the town and nobody can do anything about it. So, in both of those*

---

<sup>97</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p90](#)

<sup>98</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p90](#)

<sup>99</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 21 Ionawr 2022, [Papur.1](#)

*circumstances, we want to assist the local authority to be able to do that. I think I'm right in saying that the programme is over three years.*"<sup>100</sup>

**142.** Dywedodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i edrych ar reoliadau Gorchymyn Prynu Gorfodol i wneud yn siŵr bod yr holl bethau yr hoffem i awdurdod allu gwneud gorchymyn prynu gorfodol ar adeilad ar eu cyfer yn cael eu cynnwys yn y dibenion y gallwch chi wneud hynny, gan gynnwys defnydd er budd y gymuned ac ati.<sup>101</sup> Dywedodd y Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio wrthym fod awdurdodau lleol wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio pwerau gorfodi ar gyfer adeiladau gwag i'w helpu i weld sut y gallant ddefnyddio'r fframwaith deddfwriaethol presennol i wella pethau.<sup>102</sup>

**143.** Eglurodd y Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio hefyd fod sgwrs fywiog iawn yn digwydd am adfywio canol trefi a sut mae pethau'n gydgyssylltiedig:

*"...having the town master plans that we'll be funding over the next few years as well in place will be a really significant move, enabling towns to look much more holistically and strategically at everything that's happening there, rather than looking from simply a retail or an economic viewpoint, but actually, looking in a much more holistic and joined up way so that actually, when investment goes into any part of a town, it is clear about what part that plays in the long-term regeneration and future of the town and the space".*<sup>103</sup>

## Ein barn ni

**144.** Rydym yn croesawu mentrau sy'n dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd a'r defnydd o arian adfywio at y diben hwn. Fodd bynnag, nid ydym yn glir sut yn union y caiff y cyllid hwn ei wario.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd o ddyrannu'r gyllideb ar gyfer adfywio er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Rydym yn argymhell ymhellach fod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun cyflawni ar unwaith, i gynnwys amserlen a thargedau, o ran sut y bydd y dyraniadau cyllidebol ar gyfer adfywio yn cael eu defnyddio.

<sup>100</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p126](#)

<sup>101</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p126](#)

<sup>102</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p130](#)

<sup>103</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p129](#)

## Gweithredu a datblygu deddfwriaeth

**145.** Mae nifer o gynigion deddfwriaethol o fewn portffolio'r Gweinidog. Mae dogfen naratif y gyllideb ddrafft yn nodi bod £60,000 wedi'i neilltuo yn 2022-23 yn Llinell Wariant y Gyllideb y Polisi Tai ar gyfer gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.<sup>104</sup>

**146.** Dywedodd y Gweinidog wrthym na allai neb fod yn hapusach na Llywodraeth Cymru o fod yn y cyfnod cyn gweithredu'r Ddeddf o'r diwedd. Aeth yn ei blaen i ddweud y canlynol:

*"We've managed to keep our stakeholders on board, and an enormous amount of work has gone into making sure—that's partly why we've had such problems implementing it—that it actually fits together with all the other legislation in a seamless way and fits with our ambitions to transform the housing agenda in Wales later on in this Senedd term as well."<sup>105</sup>*

**147.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd y bydd yn cynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â'r Ddeddf.

**148.** Mae'r Ddeddf, sy'n rhoi mwy o sicrwydd i rentwyr, i fod i gael ei chychwyn ar 15 Gorffennaf 2022. Fodd bynnag, mae'r deddfwriaeth frys sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid roi chwe mis o rybudd ysgrifenedig yn y rhan fwyaf o achosion i fod i ddod i ben ar 24 Mawrth. O ran y trefniadau sydd ar waith rhwng y dyddiadau hyn, dywedodd y Gweinidog ei bod yn gweithio'n agos gyda'r sector i roi trefniadau interim ar waith i barhau â'r ddarpariaeth ddigartrefedd wrth iddynt ddiwygio darpariaethau'r Ddeddf tai, ac i wneud yn siŵr nad ydynt yn achosi unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Dywedodd y Gweinidog mai cadw amddiffyniad y rheolau troi allan gyda rhybudd estynedig ar waith yw'r unig beth da i ddod o'r ffaith bod y pandemig wedi para cyhyd.<sup>106</sup>

## Ein barn ni

---

**149.** Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â'r Ddeddf Rhentu Cartrefi. Rydym yn nodi bod nifer o gynigion deddfwriaethol o fewn portffolio'r Gweinidog a byddem yn annog Llywodraeth Cymru yn gryf i sicrhau, wrth baratoi deddfwriaeth yn y dyfodol, y gweithredir ar wersi a ddysgwyd drwy weithredu a chraffu ar deddfwriaeth flaenorol.

---

<sup>104</sup> Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2022-23, [Tudalen 84](#)

<sup>105</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, p149](#)

<sup>106</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, t151](#)

---



**150.** Rydym yn poeni na fydd gan denantiaid amddiffyniad cyfnodau rhybudd estynedig yn y cyfnod rhwng i'r mesurau argyfwng ddod i ben ddiwedd Mawrth a gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi 2016 ganol mis Gorffennaf. Nodwn fod y Gweinidog wedi dweud wrthym ei bod yn gweithio'n agos gyda'r sector ar drefniadau dros dro a byddem yn ei hannog i sicrhau bod y rhain yn cael eu cadarnhau cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i ni ar y trefniadau dros dro a fydd yn cael eu cyflwyno i ddiogelu tenantiaid rhag cael eu troi allan heb fai tan i'r Ddeddf Rhentu Cartrefi gael ei gweithredu.